GWASG YSGOL DOLWYDDELAN (2)

Ytro diwethaf soniwyd ychydig am ddyfodiad y peiriant Adana i Ysgol Dolwyddelan yn niwedd 1935 a'r modd yr aed ati i hyfforddi rhai o'r plant hynaf i feistroli'r grefft o gysodi ac argraffu. Soniwyd hefyd am gynnwys rhai o rifynnau'r cylchgrawn unigryw DOLWYDDEGIN. Y tro hwn bwrir golwg ar chwech o gyhoeddiadau eraill a gynhyrchwyd ar wasg syml yr ysgol dros gyfnod o ryw ddeng mlynedd hyd at 1949. O ran natur eu cynnwys gellir eu dosbarthu'n hwylus i dri dosbarth sef dau gyhoeddiad yn ymwneud â garddwriaeth ac a fwriadwyd fel llawlyfrau ymarferol; dau gasgliad o straeon gwreiddiol, y naill yn Gymraeg a'r llall yn Saesneg, a dwy gyfrol o farddoniaeth yn ymwneud ag ardal Dolwyddelan.

Garddio a phlannu coed

Fel y nodwyd y tro diwethaf, roedd Herber I. Huws, prifathro Dolwyddelan rhwng 1934-56 yn ŵr blaengar ei syniadau ac yn ôl tystiolaeth ei olynydd Richard Williams un o'i amcanion pennaf fel prifathro oedd " gwneud y plant yn ymwybodol o'u hamgylchedd, ei hanes, ei daearyddiaeth, ei chefndir amaethyddol a'r byd natur gwych oedd yn yr ardal" *(Ysgol Dolwyddelan: dathliad 1934-1984, t. 7).* Yn fuan wedi agor yr ysgol ym 1934 fe berswadiwyd yr Awdurdod Addysg i brynu mwy o dir er mwyn datblygu gardd lysiau a buan y daeth garddio yn rhan annatod o weithgarwch yr ysgol, hynny a phlannu coed ar raddfa sylweddol. Mae'n werth dyfynnu'n weddol llawn dystiolaeth Richard Williams gan iddo ef, fel un o athrawon yr ysgol rhwng 1934 – 41 (a phrifathro rhwng 1956-72) chwarae rhan allweddol yn y gweithgareddau:

Dechreuwyd ar y gwaith o blannu coed o gwmpas yr ysgol gyda dau amcan mewn golwg, sef addurno a chysgodi. Daeth swyddog o Goedwigaeth Gwydir i drefnu'r gwaith gyda Mr Huws ac yna cawsom sgwrs fer ar y ffordd orau i blannu'r amrywiaeth mawr o goed a ddisgwylid... Rhwng yr ysgol a'r afon rhoddwyd y gwaith o blannu amrywiaeth o'r coed bytholwyrdd i'r bechgyn... Ar ôl cael rhagor o dir i wneud gardd, rhaid oedd plannu coed ffrwythau. Dyma'r rhai fu'n gwneud yn rhagorol ers y cychwyn – eirin Mair, cyrens duon, cochion a gwynion, cansennau mafon a rhagor o goed afalau.

Defnyddiwyd yr elw o werthu'r ffrwythau a'r llysiau i dalu am hadau'r flwyddyn, ac yn aml iawn talwyd am ginio Nadolig ac anrhegion i'r plant gyda'r gweddill. *(Ysgol Dolwyddelan: dathliad 1934-1984, tt. 17-8).*

Buan hefyd y daeth arddangos cynnyrch gardd yr ysgol –yn llysiau, ffrwythau a blodau – yn rhan bwysig o Sioe Flynyddol y pentref wedi sefydlu honno yn nechrau'r 1940au. Nid yw'n syndod, felly, mai dau lyfryn dan y teitlau *Plannu Coed* a *Ffrwyth y Tir* yw'r cyhoeddiadau cynharaf, ar wahan i *Dolwyddegin* (rhifau 2 a 3), a gynhyrchwyd dan argraffnod Gwasg Ysgol y Cyngor Dolwyddelan. E.D.Rowlands, BSc, Llwyngwril yw awdur *Plannu Coed* sy'n dechrau â'r geiriau " Blant Cymru! Plannwch goed! Yna cewch GYD-DYFU â hwynt! Tra byddwch chwi yn chwarae, gweithio, cysgu a bwyta, bydd eich coed yn tyfu yn ddistaw bach ac fe synnwch mor fuan y tyfant yn dalach na chwi".Yn ogystal â nodiadau syml ond clir iawn ar lle, sut, pryd a beth i'w blannu fe geir tri darlun toriad leino pur amrwd ac elfennol i egluro'r testun. Er nad oes ddyddiad ar y cyhoeddiad hwn dwi'n tybio iddo gael ei gynhyrchu oddeutu 1940. Oherwydd dyna'r flwyddyn yr ymddangosodd *Ffrwyth y Tir* sef casgliad o dri o 'Bamffledi Ysgol Dolwyddelan' (fel y'i gelwir) wedi eu rhwymo yn un cyhoeddiad.

Deuddeg tudalen yw'r cyfan ond maent yn nodiadau cryno a defnyddiol ar dyfu tatws, moron, wynwyn, cennin a bresych. Yn ogystal â chyfarwyddiadau ar sut i blannu pob llysieuyn unigol fe geir cyngor ar sut i'w cadw'n iach rhag heintiau a phryfetach. Ac fe ddefnyddiwyd y broses leino i gynhyrchu lluniau (digon amrwd a syml mae'n wir) i egluro pethau'n well. Ar dudalen gefn *Ffrwyth y Tir* fe nodir mai'r argraffwyr oedd A. Gordon Roberts, J. Ogwen Ellis ac E. Lewis Roberts.

Felly, nid yn unig roedd staff ysgol Dolwyddelan yn darparu hyfforddiant ymarferol mewn plannu coed a thrin gardd ond fe gynhyrchwyd cyfarwyddiadau printiedig hylaw a fyddai o werth parhaol i'r plant a'u rhieni a'r ardalwyr oll. Serch hynny, mae un peth sy'n ychydig o ddirgelwch. Nid oes rifau tudalen yn yr un o'r llyfrynnau hyn, mwy na'r un cyhoeddiad arall a gynhyrchwyd ar wasg yr ysgol. A oedd prinder rhifolion yn yr hambyrddau teip tybed?

Gweithiau creadigol

Os mai llawlyfrau ymarferol oedd y ddau uchod, ein dwyn i fyd dychymyg a ffantasi a wna'r ddwy gyfrol nesaf sef *Robin Bryn Coed: hanes bechgyn y wlad* gan H. I. Huws a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 1940 a *Flights of Fancy* a gyhoeddwyd yn Hydref 1941. Dilyn rhai o gampau Robin Bryn Coed a'i gyfoedion, Wil Bach Tanrallt a Jac Pen-Mynydd a wneir yn y gyfrol gyntaf ac mae'r straeon yn rhai digon gafaelgar a'r mynegiant yn gryno er fod rhai termau'n chwithig o hen ffasiwn i'n clustiau ni bellach. Sonnir am geffylau heyrn yn hytrach na beiciau a'r gronnell ledr yn hytrach na phêldroed ! Diddorol hefyd yw'r nodyn yn rhagymadrodd H. I. Huws lle mae'n dweud hyn: " Hoffwn ddatgan fy nyled i Mr T. S. Harrison, Llanrwst, am fenthyg y teip bras i wneud y clawr". Ac fe restrir enwau'r argraffwyr sef William A. Morris; Morris Hughes; Eslie Roberts; Arthur G. Roberts a J. Ogwen Ellis.

Casgliad o chwe stori annibynnol a geir yn *Flights of Fancy* a hynny gan chwe awdur gwahanol sef Gwynfor Parry, Nancy H.Jones, Joan De-Gradi, Rhiannon Evans, Eleri Roberts a Blodwen Evans. Llyfryn 16 tudalen ydyw (ond heb ei dudalennu!) ac mae na lun neu addurn (leino) yn cyd-fynd â phob stori ond yr olaf. Mae'n arwyddocaol hefyd mai dyma'r unig gyhoeddiad uniaith Saesneg a gynhyrchwyd ar wasg yr ysgol a hynny dan argraffnod Saesneg ac fe eglurir hyn oll mewn rhagymadrodd byr:

This booklet of stories by the senior children is our first attempt at an all-English publication. The lino-cut on the front cover page was drawn by Blodwen Evans and cut by Eleri Roberts. The writers of the stories all took part in setting up type and correcting proof copies of their own work.

Eraill, serch hynny, fu'n gyfrifol am argraffu'r gyfrol yn Hydref 1941 sef Arwyn Jones, John H. Jones, E. L. Roberts, T. Hodge, S. Edwards, I. Owen a J. Walsh. Ac mae'n ddiddorol sylwi fod yr enwau hyn oll yn wahanol i'r rhai fu'n argraffu *Robin Bryn Coed* ddeunaw mis ynghynt. Hyn yn awgrymu na chyfyngwyd y gwaith o ddysgu argraffu i ychydig o ddisgyblion dethol yn yr ysgol.

Ond beth barodd i'r prifathro gwlatgar a chenedlaetholgar, H. I. Huws, i gyhoeddi casgliad o straeon uniaith Saesneg ? Un rheswm, efallai, yw fod na nifer o faciwîs (o

(Parhâd ar y dudalen nesaf)

Toriad leino a ymddangosodd yn "Efrwyth y Tir".